


# 2023 ADRODDIAD BLYNYDDOL

whelf.ac.uk

Ffoto: Jon Pountney




Croeso ddarllenwyr i'r adolygiad blynyddol o weithgareddau ac aelodau WHELF ar gyfer 2023. Dyma fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd WHELF, ac mae'n fraint i gael parhau â gwaith gwych a thraddodiad anrhydeddus fy rhagflaenwyr.

Mae'r adolygiad hwn yn cwmpasu blwyddyn arbennig, a ninnau'n dathlu carreg filltir sylweddol gyda deng mlynedd ar hugain ers ffurfio cydweithrediad WHELF. Mae tri degawd o gydweithio dan ein nod o 'Hyrwyddo cydweithio ac arloesi yn y gwasanaethau llyfrgell, gwybodaeth a dealltwriaeth ledled Cymru' yn teimlo fel cyflawniad rhyfeddol, ac yn dyst i'r gwerth parhaus a gawn i gyd drwy weithio gyda'n gilydd. Gallwch ddarllen mwy am y dathlu a'r digwyddiad hyfryd a gynhaliwyd i nodi'r deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Yn ogystal â dathlu deng mlynedd ar hugain, 2023 hefyd oedd blwyddyn olaf ein strategaeth 2020-2024 'Cydweithio – Creu – Arloesi', ac roedd hwn yn gyfle perffaith i fyfyrio ar heriau a llwyddiannau'r gorffennol a defnyddio'r foment i edrych ymlaen a dechrau creu a chyflenwi cam nesaf y stori rydym ni'n ei rhannu. I'r perwyl hwnnw, yn ystod y flwyddyn cynhaliom ni sgyrsiau gyda staff ar draws sefydliadau WHELF a'n sefydliadau partneriaeth gwerthfawr i lunio ein Strategaeth nesaf, ac rwy'n falch i ddweud y caiff 'Gyda'n Gilydd yn Gryfach', Strategaeth WHELF 2024 - 2030 ei gyhoeddi'n fuan iawn.

# Gair gan y Cadeirydd



Ffoto: Jon Pountney

Drwyddi draw yn yr adroddiad blynyddol, fe sylwch ar y creadigrwydd, arloesi a chyffro gweithgarwch parhaus a gafwyd yng ngrwpiau WHELF, sydd wrthi'n parhau â'r gwaith a datblygiadau i symud WHELF ymlaen ... ac adroddiadau gan yr aelod-lyfrgelloedd a'r gwaith gwych sy'n parhau i gael ei wneud bob dydd gan ein haelodau gwych o staff.

Yn olaf, hoffwn dalu teyrnged i fy nghydweithwyr o blith Swyddogion a Bwrdd WHELF am eu hymrwymiad diflino i'r bartneriaeth, i aelodau Grŵp WHELF am eu gwaith parhaus, i staff ar draws yr holl sefydliadau sy'n darparu ymrwymiad a brwdfrydedd bob dydd, ac i'r sefydliadau sy'n bartneriaid i ni ac sy'n gweithio gyda ni mewn cynifer o feysydd, gan fynd ag ysbryd y cydweithio i gynfas ehangach na Chymru. Credaf fod WHELF yn bartneriaeth eithriadol, sy'n cael ei hysgogi gan ymdrechion pobl eithriadol drwyddi draw.

Mae llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth, ac ac mae'n wir ein bod 'Gyda'n Gilydd yn Gryfach'.

Diolch yn fawr

Mark Hughes
Cadeirydd WHELF / Pennaeth Llyfrgelloedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# DR MICHAEL HOPKINS (1945-2023)



Gyda thristwch y nodwn farwolaeth Dr Michael Hopkins, Cyn-Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth Prifysgol Aberystwyth, ar 30 Rhagfyr 2023.
Yn hanu o Bontypridd, graddiodd y Dr Hopkins gyda BA mewn Hanes o Brifysgol Caerlŷr yn 1967. Astudiodd am flwyddyn yng Ngholeg Llyfrgellyddiaeth Cymru gynt yn Aberystwyth i ennill ei ALA. Fe gafodd ei Ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Loughborough yn 1981.

Pan oedd yn Gyfarwyddwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, roedd y Dr Hopkins yn weithgar iawn gyda Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru (WHELF), gan wella cydweithio hanfodol rhwng cydweithwyr yn llyfrgelloedd addysg uwch Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan anelu at ddull o weithio drwy systemau ar y cyd. Roedd yn flaenllaw yn 'Casglu'r Tlysau', prosiect Cymru gyfan a oedd yn casglu gwybodaeth am eitemau mewn Amgueddfeydd, Archifau, Llyfrgelloedd a chasgliadau preifat ledled Cymru. Mae'r casgliad hwn bellach yn cael ei adnabod fel Casgliad y Werin Cymru. Ar ben hynny, roedd Mike yn Gyfarwyddwr Prosiect i'r Bartneriaeth Llyfrgelloedd Addysg Uwch (HELP) ar gyfer WHELF, yn datblygu rhagor o gydweithio a chydweithredu rhwng llyfrgelloedd Cymru, gan gynnwys rhannu adnoddau.

Tim Davies ac Elizabeth Kensler (Gwasanaethau Gwybodaeth)



Ffoto: Jon Pountney

# Dathlu 30 Mlynedd

Ar y 29ain o Fehefin 2023, daeth Llyfrgellwyr a gwesteion o Gymru a thu hwnt ynghyd yn Adeilad y Pierhead yng Nghaerdydd i ddathlu mwy na 30 mlynedd o gydweithio ar draws Addysg Uwch Cymru fel Fforwm Llyfrgelloedd Addysgu Uwch Cymru (WHELF).

Daeth cydweithrediad WHELF i fodolaeth ym 1993, ac mae'r grŵp yn cynnwys y llyfrgelloedd o bob un o Brifysgolion Cymru, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a llyfrgelloedd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Amgueddfa Cymru. Cenhadaeth WHELF yw 'Annog cydweithio ac arloesi mewn gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth ledled Cymru'.




**Tracey Stanley** **Ffoto: Jon Pountney**

Mewn digwyddiad dan nawdd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, daeth y mynychwyr ynghyd i glywed anerchiadau'n nodi cyraeddiadau cydweithrediad WHELF a'r effaith y mae wedi'i gael gan Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth; cyn-Lyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Andrew Green; a chyn-swyddogion a swyddogion presennol grŵp WHELF, sef Alison Harding, Mark Hughes a Tracey Stanley.

Dewisodd y siaradwyr rai uchafbwyntiau allweddol o 30 mlynedd o gyrhaeddiad ac effaith sylweddol ar y cymunedau a wasanaethir gan WHELF, yn cynnwys:

- Caffaeliad cydweithredol WHELF o adnoddau i gefnogi dysgu ac ymchwil, a arweiniodd at agor mynediad i gasgliadau niferus o e-Lyfrau a chasgliadau o gyfnodolion ledled Cymru gyfan.




**Alison Harding** **Ffoto: Jon Pountney**

- Gwaith i gefnogi cymunedau ehangach, trwy'r cynllun 'Mynediad Cerdded i Mewn', i alluogi aelodau o'r cyhoedd i gael mynediad at gynnwys ysgolheigaidd ar-lein o lyfrgelloedd WHELF.

- Cadw ac agor casgliadau o bwys i ddiwylliant a hanes Cymru.

- Gweithio i wneud llyfrgelloedd yn fannau mwy cynhwysol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu yn eu cyfanrwydd, trwy ddigwyddiadau fel y cynadleddau 'Lleisiau Eithriedig' hynod lwyddiannus, ac amrywiaeth o weithgareddau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eraill.

- Gwaith y 'System Rheoli Llyfrgell a Rennir' sydd wedi ennill Gwobr Arweinyddiaeth a Rheolaeth y Times Higher Education, sy'n darparu llwyfan llyfrgell cyffredin, o'r radd flaenaf, ar gyfer rheoli gwasanaethau a darganfod adnoddau ar hyd a lled Cymru, sydd wedi ennyn diddordeb consortia eraill ar draws y DU ac yn rhyngwladol fel esiampl.



Ffoto: Jon Pountney

Yn ogystal â dathlu 30 mlynedd o lyfrgelloedd yn cydweithio er lles ein holl gymunedau a rennir, roedd y digwyddiad hefyd yn edrych ymlaen at lansio strategaeth WHELF sydd i ddod yn 2024, lle mae aelodau WHELF yn awyddus i fynd hyd yn oed ymhellach a chanfod ffyrdd newydd, effeithiol ac arloesol o gefnogi ein sefydliadau a'n defnyddwyr yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Digwyddiad campus, i ddiolch i'n haelodau, ein cymunedau a'n partneriaid am 30 mlynedd nodedig, ac i edrych ymlaen at ddyfodol hyd yn oed mwy cyffrous i lyfrgelloedd WHELF – ac wrth gwrs, yn unol â thraddodiad pob digwyddiad â Llyfrgellwyr, cafwyd cacen fendigedig hefyd. Rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen yn fawr at weld yr hyn y bydd WHELF, a'r grym a ddaw pan fydd llyfrgelloedd yn cydweithio at nodau cyffredin, yn ei gyflawni yn ystod y 30 mlynedd nesaf.




Mark Hughes

Ffoto: Jon Pountney




Ffoto: Jon Pountney




**Dawn Bowden AS** **Ffoto: Jon Pountney**




**Andrew Green**





Ffoto: Jon Pountney






Ffoto: Jon Pountney




Ffoto: Jon Pountney




Ffoto: Jon Pountney

Andrew Green




Ffoto: Jon Pountney




# BWRDD WHELF 2023

**Prifysgol Aberystwyth**
**Julie Hart, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Phennaeth Llyfrgelloedd**

**Llyfrgell y Brifysgol Agored a'r Brifysgol Agored yng Nghymru**
**Gary Elliott-Cirigottis, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Llyfrgell**

**Amgueddfa Cymu Museum Wales**
**Kristine Chapman, Prif Lyfrgellydd.**

**Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**
**Judith Dray, Pennaeth Gwasanaethau Llyfrgell**

**Prifysgol Bangor**
**Tracey Middleton,Pennaeth y Casgliadau Llyfrgell**

**Prifysgol Abertawe**
**Robin Armstrong-Viner, Cyfarwyddwr Cysylltiol: Pennaeth y Llyfrgell**

**Prifysgol Metropolitan Caerdydd**
**Mark Hughes, Pennaeth Gwasanaethau Llyfrgell**

**University of South Wales**
**Lynne Evans, Associate Director: Head of Library Services**

**Prifysgol Caerdydd**
**Tracey Stanley, Cyfarwyddwr Llyfrgelloedd a Llyfrgellydd y Brifysgol**

**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**
**Alison Harding, Pennaeth Gweithredol Adnoddau Llyfrgell a Dysgu**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
**Owain Rhys Roberts, Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus)**

**Prifysgol Wrecsam**
**Nicola Watkinson, Llyfrgellydd Prifysgol**

**Cyfoeth Naturiol Cymru Beth Hall, Arweinydd Tîm, Gwybodaeth Cofnodion a Dealltwriaeth**

**Swyddog Datblygu WHELF: Gill Morris**
**Rheolwr Busnes LMS WHELF: Jenny McNally**

# BUDDION LMS CYFFREDIN WHELF

## LMS WHELF A RENNIR 2023

Yn 2016, cafodd y gwaith o weithredu systemau Alma a Primo Ex Libris ei gwblhau gan y naw llyfrgell addysg uwch yng Nghymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a llyfrgelloedd y GIG yng Nghymru.

### CYNLLUN RHYNGFENTHYCA WHELF+

Mae WHELF+ yn hwyluso rhannu adnoddau rhwng llyfrgelloedd WHELF a thu hwnt
Ymunodd tair llyfrgell newydd â ni, sef Prifysgol Cumbria, Prifysgol Lerpwl a Phrifysgol Caer-wynt, gan ddod â ni i 18 aelod
Gweithredwyd ar 6,800 o geisiadau ar gyfer ein defnyddwyr
£75,000 wedi'i arbed i'r holl bartneriaid
£36,000 wedi'i arbed i lyfrgelloedd WHELF yn unig
Dechreuwyd peilot ar y cyd â Choleg Brandeis, sefydliad yn yr UD

### RHWYDWAITH CYMORTH

Cyfarfodydd misol i adolygu nodiadau rhyddhau, gofyn am gyngor a rhannu datblygiadau
Bwrdd Rheoli'r System Rheoli Llyfrgell yn cyfarfod wyneb-yn-wyneb bob blwyddyn eto

### ARBEDION O RAN COST

£150,000 wedi'i arbed bob blwyddyn ar danysgrifiadau i systemau, a hynny drwy brynu fel consortiwm
£7,200 wedi'i arbed bob blwyddyn wrth i Lyfrgell Genedlaethol Cymru gyfieithu rhyngwynebau system yr holl lyfrgelloedd i'r Gymraeg

### DARGANFOD

Cwblhawyd astudiaethau o brofiad y defnyddiwr mewn llyfrgelloedd unigol, a rhannwyd astudiaethau achos drwy WHELF
Dechreuwyd gwaith ar astudiaeth o brofiad y defnyddiwr i bob consortiwm, i'w chwblhau yn 2024

### ADOLYGU SYSTEMAU

Cwblhawyd adolygiad o'r systemau presennol, gan nodi lle maent yn gweithio'n dda a meysydd i'w datblygu ymhellach
Cwblhawyd adolygiad o farchnad bresennol systemau rheoli llyfrgell
Ymgysylltwyd â chonsortia i ddysgu o'u cydweithio ar systemau a rennir
Ymchwiliwyd i sut y gallai swyddogaeth systemau rheoli llyfrgell gefnogi cydweithio pellach yn WHELF

### DATBLYGIADAU

Yn dilyn sgyrsiau yng nghynhadledd IGeLU yn 2023, mae aelodau WHELF yn rhan o grwpiau i helpu Ex Libris i ddatblygu dangosfyrddau Rheoli Casgliadau a Phrofiad Darganfod Newydd Primo

### DADANSODDEG A RENNIR

Cynhaliwyd archwiliad o sgiliau dadansoddi yn WHELF
Cydweithredwyd â Grŵp Dysgu ac Addysgu WHELF i ddatblygu dadansoddeg Rhestrau Darllen a rennir
Datblygwyd dangosfyrddau Power BI i gefnogi cynllun WHELF+




# PRIFYSGOL ABERTAWE

- Bu'r Ganolfan Eifftaidd yn dathlu pum mlynedd ar hugain gyda chynhadledd undydd ar 7 Medi 2023 yn cynnwys cyflwyniadau ar ei heffaith ar gyfer dysgu ac addysgu, ymchwil a'r gymuned ranbarthol. Hefyd lansiwyd y casgliad o 813 o wrthrychau a fenthycwyd yn ddiweddar gan Gyngor Gogledd Swydd Efrog o Harrogate i'r Ganolfan Eifftaidd, ac ailuno cast y sail â chast y cerflun o Djedhor y Gwaredwr a fu yn flaenorol yn Amgueddfa Archaeoleg Eifftaidd Petrie.
- Bu Llyfrgell Glowyr De Cymru'n dathlu ei hanner can mlwyddiant gyda rhaglen o ddigwyddiadau gan gynnwys:
- Darlith Flynyddol Rhys Davies, *Cloddio Llyfrgell Glowyr De Cymru:* adrodd stori'r Meysydd Glo drwy gerddoriaeth ac atgofion gan John Willgoose o'r band Public Service Broadcasting,
- Cynhadledd undydd 'Gwybodaeth yw Grym' – 50 Mlynedd o Lyfrgell Glowyr De Cymru a Llafur: Cymdeithas Hanes Pobl Cymru gyda phanel a gadeiriwyd gan y Prif Weinidog a phrif araith gan y Gwir Anrhydeddus Nick Thomas-Symonds AS (Aelod Seneddol Torfaen)

**Dysgu ac Addysgu**

- Mae'r tîm Cymorth Academaidd wedi creu MyUni Library Essentials, tiwtorial rhyngweithiol llawn ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithiol yn cwmpasu popeth o gynefino Llyfrgell i sgiliau llythrennedd gwybodaeth i fyfyrwyr israddedig
- Rydym ni wedi treialu Gorsaf Traethawd Hir i fyfyrwyr ôl-raddedig oedd yn cynnwys diwrnod o sesiynau byr a sesiynau galw heibio i'w helpu gyda'u traethodau hir
- Rydym ni'n cyflwyno Lloches Llyfrgell, mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd, sy'n awr o loches ysgrifennu ar gyfer astudio unigol bob dydd Mawrth gydag aelod o'r tîm Cymorth Academaidd a'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.
- Mae'r tîm Cymorth Academaidd yn cyflwyno deallusrwydd artiffisial yn ein dosbarthiadau chwilio / gwerthuso adnoddau.

**Profiad y Myfyrwyr**

- Mesurodd Arolwg Blynyddol y Myfyrwyr foddhad gyda pha mor dda mae adnoddau'r llyfrgell wedi cefnogi dysgu, ar 88.98%, ychydig o dan y meincnod. Roedd hyn yn ail yn unig i ba mor dda mae'r staff addysgu'n esbonio pethau (91.06%)
- Rydym ni wedi adnewyddu rhannau o Lyfrgell y Bae a Llyfrgell y Parc, gan gynnwys cyfres o fannau wedi'u hanelu'n bennaf at fyfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir.




## Ymchwil


- Mae’r tîm Cymorth Academaidd wedi cymryd cyfrifoldeb am gyflwyno hyfforddiant sgiliau ymchwilwyr.

- Adleolodd Timau Gweithrediadau’r Llyfrgell a Llyfrgell Glowyr De Cymru eu casgliadau mewn storfeydd i leoliad newydd ym Mhort Talbot.

- Rydym ni wedi cyflwyno cynnig yn ddiweddar i wella seilwaith cadwraeth a chasgliadau agored i newid yn ne-orllewin Cymru gyda chais i Seilwaith Gwyddor Cadwraeth a Threftadaeth Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a’r Dyniaethau. Byddai hyn yn sefydlu uned gadwraeth symudol a labordy cadwraeth bach yn Llyfrgell y Parc.

## Newyddion Staffio

- Dechreuodd Sian Neilsen ar rôl newydd fel Llyfrgellydd Casgliadau Arbennig gyda ffocws ar ein casgliadau print a enwyd, llyfrau prin a Llyfrgell Glowyr De Cymru.
- Mark Burden sydd bellach yn arwain tîm MyUniLibrary ochr yn ochr â Thîm Gweithrediadau’r Llyfrgell i ddod â’r timau llinell flaen at ei gilydd mewn un strwythur rheoli llinell.



# PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Cynhaliodd Aberystwyth ei Gŵyl Ddigidol gyntaf gyda 28 o ddigwyddiadau dros bum diwrnod, yn amrywio o sut y gellir defnyddio deallusrwydd artiffisial er da, i ddefnyddio Excel ar gyfer cyllidebu. Cafodd y digwyddiadau i gyd eu recordio ac maent ar gael ar ein platfform dysgu. Cafwyd adborth hynod gadarnhaol o'r digwyddiadau, gyda 100% yn dweud y byddent yn argymell yr ŵyl i fyfyrwyr eraill.




Mae cynlluniau wedi'u cymeradwyo i ehangu'r lle i fyfyrwyr ar Lefel E y llyfrgell, fydd yn darparu ystafelloedd astudio ychwanegol ar ochr orllewinol yr adeilad yn edrych dros y dref a'r arfordir. Bydd llai o leoedd i staff yn sgil hyn a chaiff swyddfeydd staff eu defnyddio bellach ar gyfer astudiaethau gan grwpiau o fyfyrwyr. Bydd y gwaith yn dechrau yn yr haf.




Mae’r llyfrgell bellach yn cynnig cymorth gwasanaeth gyrfaoedd rheng flaen i fyfyrwyr, un yn unig o’r mesurau rydym ni’n eu cymryd i gyfnerthu cymorth ar gyfer cyflogadwyedd, llythrennedd gwybodaeth a sgiliau digidol ac academaidd. Mesurau eraill yw lansio gwefan SgiliauAber ar ei newydd wedd – gan ddod â gwybodaeth ynghyd o bob rhan o’r brifysgol ar y ddarpariaeth cymorth sgiliau i fyfyrwyr mewn un gwefan, a darparu un lle i restru a hyrwyddo gweithdai a sesiynau galw heibio.
Lansiwyd map rhyngweithiol newydd o’r llyfrgell, wedi’i integreiddio gyda chatalog y llyfrgell i helpu myfyrwyr i ddod o hyd i lyfrau ar y silffoedd, dod o hyd i ystafelloedd astudio grŵp a gorsafoedd PC.



# AMGUEDDFA CYMRU MUSEUM WALES

**Adnodd digidol newydd i sicrhau bod Casgliad Celf Gyfoes Cenedlaethol Cymru ar gael i bawb**

Fel rhan o Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru mae Celf ar y Cyd yn wefan newydd ddwyieithog a grewyd gan Amgueddfa Cymru i roi cyfle i bawb yng Nghymru a thu hwnt weld casgliad cenedlaethol Cymru o gelf gyfoes a modern am ddim, a hynny ar eu ffonau eu hunain.

Mae'r wefan yn cynnwys lleisiau unigryw o bob rhan o gymdeithas fywiog Cymru, ac yn sicrhau bod casgliad celf gyfoes y genedl yn fwy hygyrch, gyda chyfle i bawb bori, dysgu a chael eu hysbrydoli gan filoedd o weithiau celf yng nghasgliad cenedlaethol Cymru.

Mae Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru yn bartneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Ei nod yw darparu mynediad digidol a chorfforol at gasgliadau'r genedl ledled Cymru.

## Amgueddfa Cymru yn penodi Prif Weithredwr newydd

Mae Amgueddfa Cymru'n falch i gyhoeddi bod Jane Richardson wedi'i phenodi'n Brif Weithredwr. Dechreuodd Jane ei swydd newydd, yn rhan amser i ddechrau, ar 11 Medi, cyn ymgymryd â'r rôl llawn amser ym mis Tachwedd 2023.

Mae Jane wedi bod yn Gadeirydd Cadw ers 2019, gan gefnogi'r sefydliad drwy'r pandemig a thrwy'r broses adfer ôl-Covid. Tan yn gynharach eleni, hi oedd Cyfarwyddwr yre Economi a Lle yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn arwain ar brosiectau seilwaith mawr gan gynnwys canolfan ddiwyllant newydd yn nhref hanesyddol Conwy.

Yn yr hyn sy'n rôl newydd yn Amgueddfa Cymru, bydd y Prif Weithredwr yn atebol i'r Cadeirydd a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac yn gyfrifol am ddarparu ysbrydoliaeth, uchelgais, creadigrwydd a chyfeiriad strategol i'r sefydliad. Bydd cyflenwi Strategaeth 2030 yn ffocws, ac yn sicrhau bod y teulu o saith Amgueddfa Genedlaethol a'r Ganolfan Gasglu'n diwallu anghenion newidiol ac amrywiol cymunedau Cymru yn ogystal â hyrwyddo ein hanes a'n diwylliant i ymwelwyr a chynulleidfaoedd rhyngwladol.
.



Ffoto: Amgueddfa Cymru

**Foundations**
Growing excellence in our knowledge, information and learning

# Y BRIFYSGOL AGORED

**Newyddion Llyfrgell**
Rydym bellach wedi'n cyd-leoli gydag Ymchwil, Menter ac Ysgolheictod yn y llyfrgell mewn fframwaith cysyniadol y 'Parth Gwybodaeth'. Mae hwn hefyd yn cynnwys cartref canolog i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac Ysgol y Graddedigion Mae datblygiadau pellach yn yr arfaeth ar gyfer darparu mwy o le pwrpasol yn y llyfrgell ar gyfer Myfyrwyr Doethurol ynghyd â'u hystafell gyffredin.

Mae'r llyfrgell hefyd yn ymgymryd â gweithgaredd datblygu gwasanaeth yn fewnol, a elwir yn 'Bartneriaethau Gwaith Effeithiol'. Mae'r gweithgaredd hwn yn cyd-fynd ac yn rhan o'r cylch cynllunio ariannol a chyflenwi tair blynedd yn ogystal â'r adolygiad cynllunio gwasanaeth traws-sefydliadol.

Mae'r llyfrgell a'r tîm dyfodol digidol a'r Archif Ddigidol yn parhau i chwarae rhan allweddol o fewn rhaglen drawsnewid a gyllidir yn strategol (Rhaglen Sylfeini). Cyflwynwyd cyllid am drydedd flwyddyn y rhaglen. Mae'r Rhaglen yn ceisio trawsnewid proses cynhyrchu cyrsiau'r brifysgol - o fewn hynny y llyfrgell sy'n arwain ar Reoli Asedau Cwricwlwm. Mae'r gweithgaredd yn canolbwyntio ar storio, darganfod ac ailddefnyddio asedau. Mae'r gwaith yn dechrau defnyddio technoleg gwe semantig a deallusrwydd artiffisial fel sail i'r gweithgaredd ac i'w gefnogi.




# PRIFYSGOL BANGOR

## Newyddion y Llyfrgell, Archifau a Chasgliadau Arbennig

Dyfarnwyd £206k i'r Archifau a Chasgliadau Arbennig gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau i gael silffoedd newydd yn lle'r silffoedd symudol peiriannol sy'n heneiddio yn y brif ystafell ddiogel. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ac yn debygol o gael ei gwblhau erbyn mis Medi eleni. Yn ystod y gwaith ailwampio mawr hwn (a thra bod y rhan fwyaf o'n casgliad yn cael ei storio oddi ar y safle) rydym ni ar hyn o bryd yn cynnal gwasanaeth cyfyngedig i ddefnyddwyr.

Ym mis Ebrill cofrestrwyd i gymryd rhan yn Rhaglen Mabwysiadu Cynnar Cadwraeth JSTOR a ddaw i ben ar 30 Mehefin 2023. Bydd y rhaglen yn golygu ein bod yn deall yn well yr hyn y gall JSTOR ei gynnig i ni o ran Cadwraeth Ddigidol yn defnyddio Portico. Fodd bynnag rydym hefyd yn ystyried ymuno â chonsortiwm Cymreig i sefydlu Ystorfa Cadwraeth Ddigidol Genedlaethol i Gymru – arweinir y gwaith gan Laura Cotton yn Archifau Morgannwg.



Ym mis Mawrth 2023, buom yn cyflwyno yng nghynhadledd ER&L 2023 yn Austin, Texas, UDA. Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar ddull y llyfrgell o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, ac sy'n ymwneud â defnyddio estyniadau i'r porwr llyfrgell i olygu bod darganfod adnoddau'r llyfrgell yn rhwyddach. Yn anffodus, nid oedd modd i'r tîm deithio i Austin ond gwnaed y cyflwyniad drwy gyswllt fideo. Mae hyn yn enghraifft arall o waith trawsadrannol tîm y llyfrgell i helpu myfyrwyr a staff i ddod o hyd i adnoddau llyfrgell.

Bu Wiley Digital Archives yn digido deunydd o gasgliad Archif Coedwigoedd y Gymanwlad a nhw sydd bellach yn ei gynnal fel rhan o'r Archif Gwyddor Amgylcheddol a Hanes.

Ym mis Mawrth eleni unwaith eto dyfarnwyd Achrediad Gwasanaeth Archifau i'r Archifau a Chasgliadau Arbennig sy'n dyst i'r gwaith rhagorol a gyflawnir gan ein staff ym mhob maes o wasanaeth archifol.

Mae'r Llyfrgell wedi symud o EZproxy a gynhaliwyd yn lleol i'r fersiwn Cwmwl i gynyddu effeithlonrwydd o ran adnoddau staffio.

Cynhaliwyd ymarfer adennill OCLC.


Dathlodd yr arddangosfa flynyddol "Cysylltu Casgliadau" ganmlwyddiant Gwasg Gregynog a cheir fersiwn ar-lein Sway i gyd-fynd â'r arddangosfa ffisegol yng Nghoridor Siambr y Cyngor ym Mhrif Adeilad y Brifysgol.



Mae’r tîm Cymorth Addysgu a Dysgu wedi gweithio gyda thimau eraill ledled y Gwasanaethau Digidol i hyrwyddo a chefnogi defnydd o adnoddau’r llyfrgell. Rydym ni wedi gweithio gyda’r tîm Casgliadau i ddefnyddio data ar ddefnydd o adnoddau i dargedu cymorth i staff a myfyrwyr. Hefyd o fewn y gwahanol elfennau o’r tîm Addysgu a Dysgu, rydym ni wedi cyflwyno sesiynau ar y llyfrgell, sgiliau astudio a digwyddiadau cynefino. Hefyd mae dolenni at gymorth academaidd ac adnoddau llyfrgell yn cael eu cynnwys bellach yn nhempled pob modiwl Blackboard. Mae hyn yn golygu bod gan bob modiwl ddolen at ddogfen aml-gyfryngol fyw y gellir ei diweddaru drwy gydol y flwyddyn. Mae’r tîm yn bwriadu datblygu’r integreiddio hwn ymhellach yn ystod y flwyddyn academaidd i ddod.

Mae Gwasanaethau Digidol hefyd wedi cychwyn y fewnrwyd ar SharePoint. Mae hwn yn defnyddio technoleg Microsoft sy’n caniatáu golygu rhwydd, gan ei wneud yn gyflym ac yn hawdd creu dogfennau ategol newydd. Mae hyn yn enghraifft arall o weithio trawsadrannol, gan fod timau gwahanol yn gallu diweddaru gwybodaeth ar dudalennau gwe cyffredin.

Ymddeolodd Ms Jenny Greene, llyfrgellydd cymorth Academaidd y Celfyddydau a’r Dyniaethau ym mis Mawrth 2023 ar ôl gweithio ym Mangor am dros 30 mlynedd. Byddwn yn gweld eisiau ei hagwedd gyfeillgar a dymunol.



Ffoto: Prifysgol Caerdydd

# PRIFYSGOL CAERDYDD

Rydym ni wedi datblygu strategaeth newydd sydd wedi derbyn cymeradwyaeth gan bwyllgorau'r brifysgol. Mae'r strategaeth i'w weld yma.

Rydym ni wedi cyflwyno Rapido i wella ein rhyngwyneb benthyciadau rhwng llyfrgelloedd a phrofiad y defnyddiwr ac yn peilota Benthyca Digidol Rheoledig drwy Alma Digital.


Rydym ni wedi pwrcasu Figshare ar gyfer ein system rheoli data newydd. Bydd hwn yn fyw erbyn mis Mawrth 2024.

Rydym ni wedi dechrau cynllun peilot ar gadw hawliau a lansio ymrwymiad cyffredin i gadw hawliau gyda'n partneriaid GW4.

Rydym ni wedi cwblhau rhaglen o eiriolaeth, ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gydymffurfiaeth â mynediad agored.




Casgliad Mackworth 433



Illustrated London News ILN1855

Rydym ni’n rhoi ein hyb ymchwil dyniaethau digidol agored newydd ar waith, gyda’r cyfarpar digido diweddaraf. Rwyf i’n atodi delweddau sydd wedi’u digido’n ddiweddar o Illustrated London News, The Graphic a Chasgliad Mackworth.

Rydym ni’n arwain ar fannau astudio ledled y campws ac mae’r brifysgol yn buddsoddi mewn cynnal a chadw hanfodol ar gyfer Llyfrgell y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol, ac yn diweddaru rhai o’r celfi a’r décor. Rydym ni wedi cynnal astudiaeth dichonoldeb ar safleoedd ar gyfer adeilad llyfrgell newydd.

Cyflwynwyd cynnig llwyddiannus am gyllid CCAUC y Brifysgol i gynnal prosiect i adolygu terminoleg sydd wedi dyddio yng nghatalog y llyfrgell. Caiff yr astudiaeth gwmpasu ei chwblhau ym mis Ionawr 2024.


Sicrhawyd grant gan CILIP Cymru ar gyfer menter llyfrgelloedd gwyrdd i godi ymwybyddiaeth staff a myfyrwyr am faterion yn ymwneud â chynaladwyedd a phrynu planhigion i'r llyfrgelloedd i gyd. Rydym ni'n gweithio gyda'r brifysgol i gymryd rhan mewn sgwrs ar yr hinsawdd, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru.

Rydym ni'n bartneriaid allweddol yn y prosiect Crowd Cymru dan arweiniad Archifau Gwent, a gyllidir drwy Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.
Mae'r prosiect wedi recriwtio 90 o wirfoddolwyr a gyfrannodd dros 1400 o oriau o'u hamser yn dysgu sgiliau newydd ac yn rhyngweithio gyda phobl eraill. Mae gwirfoddolwyr wedi gallu defnyddio'r offer datblygu cynnwys cyfrannu torfol i gynyddu eu gwybodaeth am archifau digidol yng Nghymru a hanes Cymru, meithrin hyder gyda thechnoleg a gwella eu llesiant cyffredinol.

Rydym wedi cynnal adolygiad strategol allanol o Wasg Prifysgol Caerdydd.

Rydym ni wedi rhannu canllawiau ar gyfnodolion rheibus ac yn datblygu deunyddiau ar fonograffau mynediad agored yn unol â'r newidiadau ym mholisi UKRI o fis Ionawr.

Rydym ni wedi cyflwyno hyfforddiant gwrth-hiliaeth Advance HE yn y brifysgol i grŵp o 20 aelod o staff. Rydym ni wedi datblygu adnodd ar-lein i gefnogi myfyrwyr meddygaeth a gofal iechyd wrth ddysgu am arfarnu beirniadol yn y llenyddiaeth drwy lens wrth-hiliol.




# METROPOLITAN CAERDYDD

**Ionawr - Gorffennaf 23**

Aethom ati i aildrefnu ein strwythur staffio, gan symud at fodel tîm cwbl swyddogaethol. Roedd hwn yn ddarn sylweddol o waith, ond un yr oedd ei angen yn fawr i alluogi'r Gwasanaethau Llyfrgell i adlewyrchu cwmpas, cyfleoedd a heriau'r gweithle yn y cyfnod ôl-COVID yn well.

Fel rhan o'r gwaith, sefydlwyd nifer o Weithgorau a Chymunedau ymarfer newydd, gan gynnwys dau a fyddai'n datblygu'n allweddol i ni wrth ysgogi meddwl adrannol ymhellach:


- y gymuned 'Penderfyniadau ar Sail Data' ar gyfer staff y llyfrgell. Cyflwynwyd hyn i geisio dod â lle cydlynol at ei gilydd i gasglu a thrafod data ynghylch ein gwasanaethau a'u defnydd, cyflwyno hynny mewn ffordd hygyrch a defnyddio'r hyn sydd gennym i lywio prosesau penderfynu a datblygu gwasanaeth gwell.
- 'Cymuned Ymarfer Deallusrwydd Artiffisial' y Gwasanaethau Llyfrgell – fe'i ffurfiwyd i efelychu datblygiadau ehangach yn y Brifysgol, a dod â staff y gwasanaethau llyfrgell at ei gilydd o bob maes a lefel i rannu gwybodaeth ac arbenigedd ynghylch platfformau deallusrwydd artiffisial sy'n dod i'r amlwg.




- Mae’r Gymuned Ymarfer Deallusrwydd Artiffisial yn benodol wedi dod yn alluogwr pwysig ac rydym ni’n ymwneud ac yn gweithio ar ymatebion y Brifysgol i heriau a chyfleoedd platfformau deallusrwydd artiffisial o fewn gweithgareddau Dysgu, Addysgu ac Ymchwil, ac yn cynorthwyo a llywio staff a myfyrwyr drwy’r rhain yn llwyddiannus hefyd.

- Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, gosodwyd nifer o wasanaethau hefyd i helpu i gefnogi ein sefydliad partner, prifysgol HS Skovoroda Pedagogical yn Kharkiv, Wcráin, oedd yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth rhannu adnoddau RapidILL, darparu ein rhyngwyneb darganfod MetSearch mewn opsiwn iaith Wcreineg, a chynhaliwyd y cyntaf o’r digwyddiadau rhannu gwybodaeth ar-lein rhyngom ni a’n cydweithwyr yn Wcráin.

- Roedd y sesiwn gyntaf yn llwyddiant mawr, gyda thros 80 o bobl yn bresennol, ac ers hynny rydym wedi parhau i feithrin yr hyn rydym ni’n gobeithio y bydd yn bartneriaeth ac yn berthynas hirhoedlog.





**Awst - Rhagfyr 2023**

Ar 23 Awst cyhoeddwyd canlyniadau'r NSS, ac roeddem wrth ein bodd i weld cynnydd sylweddol o ran boddhad yn y cwestiynau'n ymwneud â darpariaeth adnoddau Llyfrgell a Dysgu.

Ar ddechrau'r flwyddyn Academaidd newydd, croesawyd Rob Blagden yn 'Gyfarwyddwr Digidol a Llyfrgelloedd' newydd. Ymunodd Rob â ni o Brifysgol Caerloyw, gyda phrofiad helaeth o fod wedi arwain meysydd Gwasanaeth TG a Llyfrgell o'r blaen, ac mae wedi cael effaith fawr ar rai o'n cynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth.



**Rob Blagden**




Ar ddechrau'r flwyddyn Academaidd hefyd lansiwyd gwefan newydd y Llyfrgell sydd yn ein barn ni'n cynnig mynediad gwell a rhwyddach at ein gwasanaethau i ddefnyddwyr ac sy'n cyd-fynd yn agosach â'n nod o gael profiad di-dor rhwng agweddau ffisegol a digidol ein cefnogaeth.




# COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

- Yn sgil yr argyfwng costau byw a’r effaith anghymesur ar fyfyrwyr niwroamrywiol, diddymwyd yr holl ddirwyon llyfrgell yn hydref 2022. Rydym yn dal i godi am eitemau coll neu sydd wedi’u difrodi ond yn ceisio cadw costau’n isel cyhyd ag y bo’n bosibl. Prin yw’r effaith ar stoc yn ôl pob golwg ond rydym yn parhau i’w fonitro’n fanwl.

- Dilyswyd nifer o gyrsiau newydd yn y Coleg, gan gynnwys dwy radd sylfaen (Celf Golygfeydd ac Adeiladu Golygfeydd) yn ogystal â gradd meistr ar-lein ar y Diwydiant Opera. Mae angen mwy o gymorth ac adnoddau llyfrgell ar y rhain.

- Buom wrthi'n ailffurfio (ac ailenwi) ein cod ymddygiad. I ddechrau'r broses cawsom ddiwrnod cwrdd i ffwrdd i'r tîm ac ymgynghorwyd â staff a myfyrwyr. Y nod yw y bydd hyn yn cyd-fynd â datganiad man parchus y Coleg  a'r gobaith yw cael fersiwn sy'n gryno ac yn weledol fydd yn cael ei arddangos yn y Llyfrgell a fersiwn hirach gyda manylion yn sail iddo.

- Mae llawer o waith wedi'i wneud i ychwanegu nodiadau cynnwys i eitemau sydd ag iaith broblematig yn ein catalog yn ogystal â datganiad ar flaenddalen Primo. Mae gwaith yn dal i gael ei wneud ac yn debygol o fod yn barhaus wrth i ni ymateb i newidiadau iaith.

- Bu'n rhaid atal ein hystorfa ymchwil dros dro wrth i ni ganfod nad oedd y platfform a ddewiswyd gennym yn gwbl addas i'r diben. Cawsom arian gan Gronfa Seilwaith Ymchwil Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i benodi rhywun i ymgymryd ag astudiaeth gwmpasu i wneud argymhellion ar y ffordd ymlaen.

- Trefnwyd teithiau tywys gydag arddangosfa in-situ o Gasgliad Rara Opera Foyle fel digwyddiad ymylol ar gyfer Canwr y Byd Caerdydd 2023 ym mis Mehefin. Roedd y rhain yn hynod o boblogaidd, gan ddenu amrywiaeth eang o bobl a chodi proffil y casgliad pwysig hwn. Rydym ni hefyd wedi derbyn cyllid gan gronfa ymchwil y Coleg sydd wedi caniatáu i ni recriwtio dau fyfyriwr i gyflawni prosiect ymchwil ar y llythyrau yng Nghasgliad Rara Opera Foyle. Byddant yn llunio mynegai o'r llythyrau ynghyd â chrynodeb o bob un. Nid yw'r llythyrau hyn, sydd mewn Eidaleg a Ffrangeg yn bennaf, wedi bod ar gael i'r cyhoedd o'r blaen, ond mae ganddynt y potensial i daflu goleuni newydd ar opera'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.



- Mae gennym ni gynorthwyydd llyfrgell newydd, Ethnie Foulkes, a ymunodd â ni yn gynharach eleni. Mae Ethnie yn gyn-fyfyriwr yn y Coleg ac yn gantores a chyfansoddwr.

- Fel cynifer o bobl, rydym ni'n ceisio dod i arfer â deallusrwydd artiffisial, gan geisio deall beth mae'n ei olygu ar gyfer dysgu ac addysgu yn ogystal ag i'r celfyddydau perfformio. Mae Judith ar weithgor sy'n edrych ar hyn ac mae'r Llyfrgell yn helpu i gasglu a churadu adnoddau mewn Padlet

- Bydd y Coleg yn datgelu gwefan newydd yn fuan. Mae'r Llyfrgell wedi bod yn rhan o'r prosiect ac yn gobeithio am well presenoldeb ar-lein fydd yn dweud mwy am bwy ydym ni.

- Llwyddodd aelodau o dîm Llyfrgell y Coleg i gyflawni Cymrodoriaeth Advance HE (Judith Dray) a Chymrodoriaeth Gyswllt (Helen Bader a Sally Brockway). Rydym ni nawr yn edrych ar ffyrdd i wella ein darpariaeth addysgu a dysgu yn dilyn hyn.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

- Caffael LMS – yn 2023 y ffocws oedd caffael LMS newydd a'i roi ar waith, yn dilyn penderfyniad OCLC i dynnu eu platfform OLIB yn ôl. Rydym ni wedi dewis Soutron yn gyflenwr newydd ac mae'r gwaith yn tynnu tua'r terfyn. Y nod yw y bydd y system newydd yn fyw ddechrau Chwefror 2024. Gellir gweld y porth cyhoeddus, sydd yn dal i gael ei ddatblygu, yma: Search - Soutron LMS

- Ym mis Hydref 2022 gwnaed cais llwyddiannus am grant gan CILIP Cymru Wales i "lyfrgelloedd yng Nghymru sy'n dymuno datblygu a gwerthuso dealltwriaeth a gweithgaredd amgylcheddol". Cynhaliwyd gwaith prosiect tan ddiwedd mis Mehefin gyda phartneriaid yn Llyfrgelloedd Gwynedd i gynnal digwyddiadau gyda Dynamic Dunescapes and Wild Elements,gan ddod ag amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd dysgu ymarferol i blant a'u teuluoedd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Defnyddiwyd yr arian grant hefyd i greu casgliad amrywiol newydd o lyfrau yn Llyfrgelloedd Gwynedd ar amrywiaeth o bynciau amgylcheddol yn Gymraeg a Saesneg.

- Mae adeiladau’n dal i gael eu hadolygu ledled ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru a disgwylir y caiff rhagor o swyddfeydd eu cau. Er y bydd deunydd llyfrgell sydd mewn swyddfeydd y disgwylir iddynt gau yn cael ei symud i’r prif gasgliad yn swyddfa Maes y Ffynnon ym Mangor, nid oes disgwyl y bydd y brydles ar y swyddfa hon yn cael ei hadnewyddu ar ôl 2026.
- Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr roeddem yn ffodus i groesawu Tina i’r tîm. Yn y cyfnod hwnnw cwblhaodd waith hynod o werthfawr yn creu sganiau ansawdd uchel o adroddiadau tystiolaeth a gyhoeddwyd gan ein corff etifeddol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru.
- Rydym ni wedi bod yn cyfrannu lle bo’n bosibl i waith Cydweithio er Tystiolaeth Amgylcheddol a’u cronfa ddata o adolygiadau tystiolaeth. Mae hwn yn adnodd gwych yr ydym bellach yn ei hyrwyddo i gydweithwyr mewn sesiynau hyfforddi llythrennedd gwybodaeth ac yn cysylltu o’n tudalennau mewnol. Mae’n gyfle gwerthfawr hefyd ar gyfer datblygu proffesiynol, gan feithrin sgiliau wrth werthuso adolygiadau tystiolaeth.
- Ceir diddordeb cynyddol yn ein gwasanaeth a’n casgliad gan fyfyrwyr prifysgol a choleg felly byddwn yn edrych ar ffyrdd i wneud y llyfrgell yn fwy hygyrch i’r cyhoedd drwy weithio gyda chydweithwyr mewn llyfrgelloedd academaidd a chyhoeddus


Ffoto: PCYDDS

# PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT

**Rhaglen Sgiliau Gwybodaeth**
Rhaglen diwtorial ar-lein ddynamig yw Sgiliau Gwybodaeth PCDDS a gynlluniwyd gan Lyfrgellwyr Cyswllt Academaidd y Brifysgol i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau academaidd a llythrennedd gwybodaeth trosglwyddadwy yn annibynnol.

Mae'r unedau Sgiliau Gwybodaeth ar-lein wedi'u cynllunio i alluogi myfyrwyr i greu eu llwybr dysgu eu hunain, beth bynnag eu lefel, profiad blaenorol neu wybodaeth. Gall myfyrwyr sgrolio a chlicio drwy'r tiwtorial rhyngweithiol yn eu pwysau, gan ddefnyddio gwiriadau gwybodaeth ar ddiwedd pob pwnc i gadarnhau eu bod yn deall.
Mae'r unedau anghydamserol ar-lein hyn yn ategu'r sesiynau Sgiliau Gwybodaeth llyfrgell wyneb yn wyneb a archebir drwy'rLlyfrgellwyr Cyswllt Academaidd i fyfyrwyr.


Ffoto: PCYDDS

## Agor Drysau CADW

Yn 2023 bu Casgliadau Arbennig y Llyfrgell yn rhan o Agor Drysau CADW, yr ŵyl flynyddol yn cyflwyno safleoedd treftadaeth a hanesyddol i'r cyhoedd. Mae gennym gasgliad o bwys cenedlaethol o 35,000 o gyfrolau hanesyddol gan gynnwys wyth llawysgrif ganoloesol a 69 cyfrol a argraffwyd cyn 1500. Arddangoswyd detholiad o'r eitemau mwyaf diddorol. Roedd y rhain yn cynnwys llawysgrif o'r Beibl Lladin o 1279, oedd yn eiddo i'r Esgob Thomas Burgess; dau lyfr oriau o'r 15fed ganrif; copi o atlas Abraham Ortelius, gan gynnwys y map argraffedig cyntaf o Gymru; Historia animalium Conrad Gessner, gwyddoniadur natur cyfareddol o'r 16eg ganrif; detholiad o lyfrau botanegol o'r 15fed i'r 18fed ganrif; amrywiol lyfrau taith yn gysylltiedig â chrwydrwyr y 18fed ganrif, gan gynnwys Capten Cook; detholiad o gyfrolau penseiri'n gysylltiedig â'r Daith Fawr yn Ewrop.
Ceir rhagor o wybodaeth yn y Datganiad i'r Wasg ar wefan y Brifysgol.

## Partneriaeth Llyfrgelloedd Gwyrdd

Ymunodd y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu â Phartneriaeth Llyfrgelloedd Gwyrdd Sefydliad Siartredig y Gweithwyr Llyfrgell a Gwybodaeth Proffesiynol (CILIP). Mae'r Gwasanaeth wedi llofnodi'r Maniffesto Llyfrgelloedd Gwyrdd sy'n golygu mai dyma'r ail Lyfrgell Brifysgol yng Nghymru i wneud hynny.

Nod y Bartneriaeth Llyfrgelloedd Gwyrdd yw:

- darganfod a harneisio gwaith sy'n digwydd mewn llyfrgelloedd ynghylch Cynaladwyedd
- meithrin a chefnogi dealltwriaeth a gweithredu amgylcheddol mewn llyfrgelloedd er mwyn iddynt chwarae rhan lawn yn creu dyfodol gwell i'r blaned a'r bobl
- galluogi llyfrgelloedd i weithio gyda'u cymunedau i barhau i feithrin dealltwriaeth a gweithredu amgylcheddol
- gosod llyfrgelloedd wrth galon rhaglenni amgylcheddol lleol gan gynnwys y rhai a arweinir gan Awdurdodau Lleol.

Fel llyfrgelloedd mae gennym le wrth galon y cymunedau a wasanaethwn. Drwy'r maniffesto hwn, rydym am ddod ynghyd at weledigaeth gyffredin: arwain drwy esiampl drwy ein gweithredoedd amgylcheddol a defnyddio ein grym i estyn allan ere mwyn addysgu ac ysbrydoli pobl i gymryd camau cadarnhaol ac adeiladu gwydnwch yn y cymunedau amrywiol a wasanaethwn.
Ceir rhagor o wybodaeth am y Maniffesto yma.

## Gwobr Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid

Yn ystod 2023, dyfarnwyd gwobr Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid, Safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid i'r Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu.

Diben y nod ansawdd a safon cenedlaethol hwn yw dod â chysyniadau gwasanaeth cwsmeriaid proffesiynol lefel uchel i bob agwedd ar wasanaeth drwy osod cwsmeriaid wrth graidd popeth i gael diwylliant sydd yn wirioneddol yn canolbwyntio ar y cwsmer. Mae'n cynnwys pum deg saith o elfennau o fewn pum maen prawf rhagoriaeth sy'n amrywio o ddeall cwsmeriaid, i ddiwylliant y sefydliad ac ansawdd a chyflwyno gwasanaethau.

Aseswyd y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu yn erbyn meini prawf y safon gan gorff ardystio trwyddedig, drwy broses asesu drylwyr yn cynnwys adolygiad o ddogfennau a gyflwynwyd i asesydd diduedd sy'n dangos cydymffurfiaeth yn erbyn pob elfen o'r Safon, ac ymweliad â'r safle i ganfod a yw'r sefydliad yn bodloni gofynion y cynllun.


Ffoto PDC

# PRIFYSGOL DE CYMRU

**Staff:**

- Yn 2023, cafwyd rhywfaint o ailstrwythuro rolau yn y Gwasanaethau Llyfrgell ac ychwanegwyd tair swydd newydd i dîm y llyfrgell: penodwyd Lynne Evans yn Gyfarwyddwr Cyswllt: Pennaeth Gwasanaethau Llyfrgell, ymunodd Vikki Killington â thîm rheoli'r llyfrgell yn Rheolwr Ymgysylltu Academaidd y Llyfrgell ac ymunodd Claire Thomas â thîm Gwasanaethau Digidol y Llyfrgell yn Rheolwr Cyfrif: Cynnwys Academaidd.

**Casgliadau a lleoliadau'r Llyfrgell:**

- Cafodd ein llyfrgell leiaf ar Gampws Glyntaf ei hadnewyddu. Yn dilyn ymarfer golygu stoc eang, roedd modd i staff ailffurfio'r silffoedd i greu mwy o le i gerdded drwy'r llyfrgell a gwella mynediad at yr adnoddau a'r mannau astudio.
- Cafwyd dodrefn newydd a phaent ar y waliau i adnewyddu'r gofod a helpu i greu amgylchedd mwy croesawgar.
- Yng Nghasnewydd, bu staff y Llyfrgell yn cydweithio gyda myfyrwyr Dylunio Mewnol ar frîff i ailgynllunio hen ardal bwyty ar y safle. Casglodd staff ddata a ffotograffau ar ddefnydd dydd i ddydd yr ardal i helpu gyda syniadau ac ymchwil. Mae'n cael ei ailddatblygu ar hyn o bryd ac mae rhai o syniadau'r myfyrwyr wedi'u hadlewyrchu yn y cynlluniau.

- Yn dilyn lansio prosiect llwyddiannus Curaduron Amrywiaeth yn 2022, mae staff llyfrgell Prifysgol De Cymru wedi parhau i'w ddatblygu. Recriwtiwyd Curaduron gwirfoddol o blith y myfyrwyr ym mhob un o'r llyfrgelloedd prifysgol a buont yn gweithio gyda llyfrgellwyr i wneud ymchwil fanwl i gasgliadau'r llyfrgell ar amrywiol bynciau a helpodd i hyrwyddo amrywiaeth ledled y brifysgol. Tasg y Curaduron oedd creu arddangosiadau i hyrwyddo pwnc o ddiddordeb iddyn nhw a arweiniodd ar ddetholiad amrywiol a diddorol o faterion ac adnoddau'n cael eu harddangos, gan gynnwys casgliad arbennig Astudiaethau Rhywedd i Gymru. I ddod â'r prosiect i ben, bu'r Curaduron hefyd yn cydweithio ar greu canllaw i hyrwyddo a chofnodi eu gwaith.

- Yn 2023 dechreuodd staff weithio ar brosiect i arddangos casgliadau arbennig y llyfrgell, yn benodol eitemau o ddiddordeb unigryw a hanesyddol a pherthnasol i'r brifysgol. Mae'r prosiect yn tynnu tua'i derfyn a chaiff ei lansio yn 2024. Bydd eitemau o'r casgliadau arbennig yn cael eu dangos yn llyfrgell Trefforest am y tro cyntaf, a'r gobaith yw y bydd mwy o ymgysylltu â'r casgliadau'n digwydd o ganlyniad i hynny.

- Creodd tîm yllyfrgellwyr cyfadran raglen newydd o weithdai cymorth ar-lein, sgyrsiau ag awduron a digwyddiadau Mae'r rhaglen hon o ddigwyddiadau byw, a elwir Myfyrwyr Parod ar gyfer y Dyfodol, yn ategu'r gweithdai a'r sesiynau hyfforddi a gyflwynir wyneb yn wyneb. Mae'r rhaglen ar gael i bob myfyriwr yn y Brifysgol ac mae'n ehangu cwmpas yr hyfforddiant sgiliau gwybodaeth i fyfyrwyr rhan amser, o bell ac mewn colegau partner yn ogystal â myfyrwyr llawn amser nad ydynt yn gallu dod i'r gweithdai wyneb yn wyneb. Yn dilyn lansiad llwyddiannus yn 2023, mae tim y llyfrgell wedi cydweithio gyda'r adran Datblygu a Chymorth i Fyfyrwyr i ehangu'r dewis o ddigwyddiadau sydd ar gael.




- Yn 2023 cynhaliodd y Llyfrgellwyr Cyfadran brosiect ymchwil UX i gael gwybodaeth am sgiliau adalw gwybodaeth ac ymchwil myfyrwyr ôl-raddedig. Gofynnwyd i'r gwrthrychau ymchwil gadw dyddiaduron wrth chwilio am wybodaeth ac adnoddau llyfrgell; roedd y dyddiaduron yn cofnodi pa offer a ddefnyddid i chwilio, dulliau'r myfyrwyr o fynd ati i chwilio a sut roedden nhw'n teimlo wrth chwilio. Mae dadansoddiad o'r canlyniadau wedi rhoi gwybodaeth werthfawr i'r llyfrgellwyr am arferion adalw gwybodaeth ac ansawdd yr offer a ddarparwn. Mae'r ymarfer wedi arwain at newidiadau i'r deunyddiau hyfforddi sgiliau gwybodaeth a gwelliannau i'r cyfarwyddiadau chwilio. Yn bwysicaf oll, mae wedi cynyddu ein dealltwriaeth yn sylweddol o anghenion defnyddwyr y llyfrgell.

- Mae llyfrgellwyr y gyfadran yn rhan o Weithgor Deallusrwydd Artiffisial y Brifysgol ynghyd ag academyddion a chydweithwyr gwasanaethau proffesiynol eraill ac yng nghanol sgyrsiau sy'n cyfrannu at ddatblygu polisi ac arweiniad ar gyfer defnydd moesegol o ddeallusrwydd artiffisial. Yn benodol cafodd staff eu canmol am eu gwaith yn creu Canllaw AI i staff a myfyrwyr sy'n cael ei hyrwyddo ledled y brifysgol.



# LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

**Archif Ddarlledu Cymru**

Erbyn hyn mae dros 229,000o ddarllediadau ar gael i'r cyhoedd a chafwyd dros 14,200 o ymwelwyr â'r Ganolfan Archifau Darlledu yn y Llyfrgell rhwng yr agoriad ym mis Mawrth a diwedd mis Awst. Cynllunnir prydles o 25 mlynedd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru gydag oes o 5 mlynedd ar gyfer y gosod cychwynnol.

Mae Archif Ddarlledu Cymru wedi gwneud gwaith yn Butetown fel rhan o'r cynllun allgymorth a gweithgaredd. Dangoswyd wythnos ym mywyd Carnifal Butetown pan lansiwyd Prosiect Archif Carnifal Butetown yn y Pierhead a'r Senedd, gydag ail ddangosiad i'r cyhoedd yn y Pierhead ar ddiwrnod Carnifal Butetown. Gosodwyd cyfleusterau Clip Symudol hefyd am y dydd i'r cyhoedd allu pori drwy raglenni'r Archif Ddarlledu'n ymwneud â Charnifal Butetown a'r ardal leol.

Bu’r Prosiect Archifau Darlledu’n cefnogi prosiect Cymunedau Cymru drwy ddarparu clipiau ar gyfer gweithdy podledu gan EYST – Timau Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru.

Thema’r podlediad oedd hunaniaeth a Chymreictod. Cynhaliwyd tair sesiwn gyda chyfle i’r bobl ifanc drafod syniadau a dysgu sgiliau newydd er mwyn recordio eu podlediad eu hunain. Bydd y podlediad terfynol yn cynnwys clipiau o’r Archif Ddarlledu a chaiff ei rannu fel adnodd addysgol ar Hwb a gwefan y Llyfrgell Genedlaethol. Mae’r cynllun hwn yn gyfle cwbl newydd i ni weithio gyda phobl ifanc na fyddent fel arall yn cael profiad o gasgliadau’r Llyfrgell.

**Gweithdai i deuluoedd**
Cynhaliwyd cyfres o weithdai i deuluoedd gan y Gwasanaeth Addysg yn ystod gwyliau’r haf. Roedd y Sesiynau Hwyl Haf poblogaidd hyn yn cynnwys gweithdy Adeiladu Llyfr, sesiwn Palet, Paent a Chwarae!a sesiwn i adeiladu Llyfrgell Genedlaethol Lego. Mae’r ardal chwarae’n parhau’n boblogaidd iawn gyda rhieni, gwarcheidwaid a phlant.

**Newyddion y llyfrgell**
Er mwyn cynyddu capasiti storio, mae cynlluniau ar waith i drosi’r Atriwm, y man agored yn Nhrydydd Adeilad y Llyfrgell, yn storfa ychwanegol a gofod arall.

**Yr Eisteddfod Genedlaethol**
Roedd presenoldeb y Llyfrgell yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn llwyddiant mawr.

Cynhaliwyd tri digwyddiad corfforaethol llwyddiannus yn yr Eisteddfod eleni gyda dathlu Partneriaeth y Ddeiseb Heddwch, lansio Partneriaeth Strategol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac Archif Ddarlledu Cymru.

Cafwyd sylw i'r Llyfrgell ddwywaith ar raglenni Eisteddfod S4C yn ystod yr wythnos a denwyd yn agos i 7,000 o ymwelwyr i'r stondin. Cafwyd incwm o £10,000 yn y Siop ar y stondin, dwbl ffigur 2022. Roedd yn wych cael sylwadau cadarnhaol iawn gan ymwelwyr am yr arddangosfa a arweiniodd at hyrwyddo gwaith ehangach y Llyfrgell a gwneud cysylltiadau newydd.

**Arddangosfeydd**
Profodd y Llyfrgell niferoedd uchel o ymwelwyr yn ystod yr haf gyda dwbl y nifer a gafwyd yn 2022. Mae'r Ddeiseb Heddwch a'r Ganolfan Archifau Darlledu wedi bod yn atyniadau poblogaidd, gyda llawer o sylwadau cadarnhaol am yr Arddangosfeydd Trysor, Dan y Wenallt, a darluniau print Gregynog.

**Cynnal Cyfarfod Grŵp Gweithredu Adnau Cyfreithiol yn y Llyfrgell**
Cynhaliwyd cyfarfod y Grŵp Gweithredu Adnau Cyfreithiol yn y Llyfrgell ar 19 Medi. Roedd yn wych cael croesawu Amina Shah, Llyfrgellydd Cenedlaethol a Phrif Weithredwr Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, un o'r cynrychiolwyr, ar ei hymweliad cyntaf â'r Llyfrgell.




# PRIFYSGOL WRECSAM

Ym mis Medi 2023, newidiwyd ein henw o Brifysgol Glyndŵr Wrecsam a chawsom ein ail-frandio yn Brifysgol Wrecsam.

Mae’r llyfrgell, ynghyd â’r Ddesg Gwasanaeth, Cymorth Academaidd a Dysgu Digidol bellach yn rhan o Gyflenwi Gwasanaethau o fewn y Gwasanaethau Gwybodaeth. Fel rhan o Gyflenwi Gwasanaeth, rydym ni wedi aildrefnu llawr daear y llyfrgell a bellach ceir ardal hunanwasanaeth benodol ar gyfer catalog y llyfrgell, y peiriant hunanwasanaeth, cyfrifiaduron ac argraffwyr. Rydym ni hefyd wedi symud TG/Galw Heibio, sy’n cynnig cymorth galw heibio o natur dechnegol.

Cyflwynwyd brand newyddHysbysu ar gyfer y Llyfrgell, Sgiliau Dysgu a Thechnoleg. Mae’r brand Hysbysu a logo newydd y Brifysgol bellach ar ein arwyddion.





Fel rhan o Gyflenwi Gwasanaeth, rydym ni'n cyflwyno meddalwedd desg gwasanaeth newydd.

Gwnaed y penodiadau staff newydd canlynol:

- JeanetteHarper – Swyddog Desg Gwasanaeth
- Sam Kassam – Uwch Ddadansoddwr Desg
- Gail Judd a Susannah Burtinshaw - 0.6 Cynorthwywyr Cymorth Academaidd, yn gweithio ochr yn ochr â'r Llyfrgellwyr Cymorth Academaidd

Cymeradwywyd Polisi Rheoli Casgliadau newydd.
Rydym ni wedi prynu LibGuides yn ddiweddar.






# LLEISIAU EITHRIEDIG 2023

Cynhaliodd grŵp EDI WHELF gynhadledd Lleisiau Eithriedig 2023 ar-lein dros ddau ddiwrnod. Gydag agenda'n canolbwyntio ar Gymru, trafododd y siaradwyr a'r cyflwynwyr lawer o themâu allweddol yn ymwneud â gwella amrywiaeth, ymgysylltu cymunedol a chyfranogiad mewn addysg.

Ar y diwrnod cyntaf cafwyd thema gref o ymgysylltu cymunedol a phartneriaeth yng Nghymru. Trafododd Usha Ladwa-Thomas gydweithio gyda'r gymuned yng Nghymru i ddatblygu polisi gwrth-hiliaeth effeithiol. Dangosodd y gwaith rhyfeddol a wnaed gan wirfoddolwyr yn y Ganolfan Eifftaidd yn Abertawe sut y gall amgueddfeydd ennyn ymdeimlad dyheadol o ddiben a dysgu gydol oes. Bu Wendy Goodridge yn arddangos eu talentau a'u llwyddiannau gyda gwir falchder.

# *Lleisiau Eithriedig -* Diwrnodau 1 & 2

Cyflwynodd Nancy Roberts gipolwg rhagorol ac amserol ar ddeallusrwydd artiffisial a thuedd. Fel un sy'n cyfaddef ei bod yn 'nerd' data dadansoddol ac yn swyddog mewn sawl sefydliad data, roedd Nancy'n gallu esbonio'r cysylltiad rhwng data a deallusrwydd artiffisial a sut y gall tuedd ac ansawdd data effeithio arno.

Ar ail ddiwrnod y gynhadledd roedd ffocws cryf ar rannu profiadau a dealltwriaeth a bu'r siaradwyr – ymchwilwyr, llyfrgellwyr neu weithwyr cymunedol ledled y DU – yn arddangos arferion arloesol ac ymgysylltiad myfyrwyr gydag amrywiol brosiectau sy'n bodoli eisoes.

Roedd rhan gyntaf y bore'n edrych ar brosiectau cydweithredol gyda myfyrwyr heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, a faint o waith sydd angen ei wneud o hyd cyn y gellir ystyried bod llyfrgelloedd yn wirioneddol amrywiol ac yn adlewyrchu cefndiroedd eu myfyrwyr. Diolch i Amanda Foster, Lorna Hibbert a Dr Biddy Casselden o Brifysgol Northumbria a Dr Christina Kamposiori o Research Libraries UK.

# *Lleisiau Eithriedig* - Diwrnod 2

Cafwyd prif gyflwyniad i beri i ni feddwl ar Ddiwrnod 2 “Working in Partnership Across the University: Improving Race Equity” gan Susan Cousins, Uwch Ymgynghorydd Cydymffurfiaeth, Hil – Crefydd a Chred, Prifysgol Caerdydd. Susan yw awdur Overcoming Everyday Racism a Making Sense of Microaggressions ac mae hi hefyd wedi cyflwyno digwyddiadau hyfforddi i gydweithwyr WHELF.

Yna bu llyfrgellwyr ledled y DU yn rhannu eu prosiectau cyffrous ac arloesol: estyn allan at fyfyrwyr gyda chlybiau darllen i hybu sgiliau astudio ym Mhrifysgol Glasgow Caledonian (Silvia Spaltro a Frances MacInnes) ac ymgyrch gwrth-hiliaeth effeithiol yng Nghymru yn llyfrgelloedd AB Castell Nedd Port Talbot (Sobia Shafique-Akhtar) ynghyd â nifer o fentrau eraill â’r nod o ddarparu cymorth a chefnogaeth i staff a myfyrwyr sy’n dymuno amrywio eu haddysgu a’u dysgu (Charlie Worthington a L C Chung, Coleg King’s Llundain a Catherine Small, Conservatoire Brenhinol yr Alban).

Diolch o galon i’r holl siaradwyr ac i bawb a fu’n bresennol am gyfrannu a sicrhau bod Lleisiau Eithriedig 23 yn brofiad mor ystyrlon. Yn aml, mae llyfrgelloedd wrth galon prifysgolion a chymunedau a gyda’r cyntaf i fabwysiadu technoleg newydd. Gyda gwybodaeth EDI, gobeithio bod y Gynhadledd wedi cynnig cipolwg gwerthfawr ar rai o’r datblygiadau pwysig sydd ar waith heddiw.

# COLOCWIWM WHELF 2023

## WHELF yn dechrau yn 30!

Trefnwyd Colocwiwm 2023 gan Brifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Chyfoeth Naturiol Cymru. Fe’i cynhaliwyd ar-lein dros ddau hanner diwrnod ddydd Mawrth 13 a dydd Mercher 14 Mehefin 2023, rhwng 09:30 a 13:00.

Roedd y gynhadledd yn dathlu deng mlynedd ar hugain WHELF. Rhannwyd myfyrdodau ar sut rydym ni wedi datblygu ein gwasanaethau’n gydweithredol dros y cyfnod hwnnw. Fel y dywed yr hen air, mae bywyd yn dechrau yn 30 oed, felly edrychwyd hefyd ar y cyfleoedd a’r heriau newydd a fydd yn ein hwynebu dros 30 mlynedd nesaf WHELF.

Diolch i’r tîm yn Jisc Cymru am y cymorth technegol.

# Bore o ysgrifennu ar gyfer Cymrodoriaethau Advance HE 1: Casglu Tystiolaeth

Ar 13 Rhagfyr 2023 trefnodd Grŵp Dysgu ac Addysgu WHELF fore ar gyfer dechrau neu gwblhau cais i lefel o Gymrodoriaeth Advance HE.

Yn ystod rhan gytntaf y digwyddiad, rhannodd dau gydweithiwr eu profiadau o gyflwyno eu portffolios o dystiolaeth:

Helen Bader,Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Llyfrgell Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Rhian Plenty,Llyfrgellydd Cyfadran gyda Phrifysgol De Cymru

Yna cafwyd amser penodol i weithio ar y cyflwyniadau a rhannu syniadau gyda chymorth gan gydweithwyr ar draws WHELF.

Ar 6 Gorfennaf 2023 trefnodd Grŵp Dysgu ac Addysgu WHELF:

## Defnyddio tystiolaeth yn seiliedig ar ymchwil i lywio arfer llythrennedd digidol: Gwersi o "The Qualitative Landscape of Information Literacy Research" a thrafodaeth ar fethodolegau

- **Gwersi o "The Qualitative Landscape of Information Literacy Research: Perspectives, Methods and Techniques"** gan yr awdur yr Athro Annemaree Lloyd, Coleg Prifysgol Llundain

- **Prosiect UX yn defnyddio dyddiaduron**: profiad Prifysgol De Cymru: José López-Blanco a Lowri Williams, Prifysgol De Cymru

- **Gwrando, dysgu, gweithredu ac ymateb: Defnyddio llais y myfyriwr i wella ein sesiynau hyfforddiant llyfrgell ar-lein** – Hannah Woods, y Brifysgol Agored

# WHELF STRATEGY PLANNING DAY 03.03.2023

Mae Cynllun Strategol WHELF yn cwmpasu'r cyfnod 2020-2024. Pwy fyddai wedi gallu rhagweld pandemig Covid-19 a'i effaith ar sefydliadau WHELF a'u harferion gwaith?

Ddydd Gwener 3 Mawrth cynhaliwyd dau ddiwrnod cwrdd i ffwrdd cynllunio strategol ar yr un pryd.





Yn y gogledd, arweiniodd Beth Hall (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Tracey Middleton (Bangor) y trafodaethau ym Mhrifysgol Bangor.

Yn y de, cyfarfu cydweithwyr ar gampws Prifysgol De Cymru, yn adeilad hyfryd yr Atriwm. Arweiniwyd y sesiwn gan Mark Hughes (Met Caerdydd – Cadeirydd WHELF 2023-25) ac Alison Harding (Cadeirydd WHELF 2021-2023)

Roedd pawb yn cytuno ei fod yn gyfle gwych i gwrdd â chydweithwyr, ac mewn rhai achosion i gwrdd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf. Roedd yr arlwyo yn y ddau le'n rhagorol. Roedd y dydd yn gyfuniad o grwpiau trafod a thrafodaethau grŵp llawn a rhannu gwybodaeth. Mae gan swyddogion WHELF nawr ddigon o nodiadau a syniadau i ffurfio sail ar gyfer Cynllun Strategol nesaf WHELF.




# Newyddion gwefan WHELF

Ddechrau 2023, roedd WHELF yn awyddus i adolygu a newid y wefan, oedd yn seiliedig ar fersiwn cynharach o WordPress.

Cynhaliwyd trafodaethau'n seiliedig ar ofynion allweddol penodol WHELF rhwng gweithgor yn cynrychioli aelodau WHELF a phedwar cwmni allanol â hanes o weithio yn y maes.

Cyflwynwyd tri chynnig / dyfynbris a dyfarnwyd y contract i Gwe Cambrian Web (GCW)

Mae GCW wedi'i lleoli yn Aberystwyth ac maent yn deall yr angen am wefan ddwyieithog. Y gobaith oedd y byddai'r safle newydd yn barod ar gyfer digwyddiad WHELF yn 30 ar 29 Mehefin 2023 a llwyddodd GCW i'w gyflenwi'n barod ar gyfer y dathliadau.

Erbyn hyn mae gan WHELF wefan ffres a modern sy'n cymharu â'r rhai sydd gan gonsortia llyfrgelloedd rhanbarthol eraill yn y DU